Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Dogfen Canllawiau

# Canllawiau hunanasesu ar gyfer darparwyr ôl-16

Cylchlythyr Llywodraeth Cymru: 002/2019
Dyddiad cyhoeddi: Mehefin 2019
Yn disodli cylchlythyr: rhif 006/2018

**Cynulleidfa**
Sefydliadau addysg bellach; darparwyr dysgu seiliedig ar waith; partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned; Carchardai ei Mawrhydi sy'n darparu cyrsiau dysgu i droseddwyr; darparwyr eraill os caiff ei nodi yn eu cytundeb cyllido.

**Trosolwg**
Mae'r canllaw hwn yn rhoi cyngor manwl ar sut y dylai darparwyr ôl-16 gynnal hunanasesiad a chynllunio datblygiad ansawdd, a hynny'n flynyddol.

**Camau i'w cymryd**
Dim – er gwybodaeth yn unig.

**Rhagor o wybodaeth**
Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:
Ansawdd a Rheoli Data Ôl-16
Yr Is-adran Addysg Bellach a Phrentisiaethau
Llywodraeth Cymru
Tŷ'r Afon
Heol Bedwas
Bedwas
CF83 8WT

Tel: 0300 025 3905
e-bost: post16quality@llyw.cymru

**Copïau ychwanegol**
Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn:
www.llyw.cymru/addysgasgiliau

OGL © Hawlfraint y Goron 2019 WG37880 ISBN digidol 978-1-83876-404-3

# Cynnwys


**Cyflwyniad** 2

**Nodweddion hunanasesiad effeithiol** 3

**Cwmpas a chynnwys yr adroddiad hunanasesu** 4

**Cynlluniau datblygu ansawdd** 5

## Cyflwyniad

1 Mae'r canllaw hwn yn rhoi cyngor manwl ar sut y dylai darparwyr ôl-16 gynnal hunanasesiad a chynllunio datblygiad ansawdd, a hynny'n flynyddol.

2 Y mae'n gymwys i:

- sefydliadau addysg bellach;
- darparwyr dysgu seiliedig ar waith;
- partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned;
- Carchardai ei Mawrhydi sy'n darparu cyrsiau dysgu i droseddwyr; ac
- darparwyr eraill os caiff ei nodi yn eu cytundeb cyllido.

3 Mae safonau proffesiynol newydd wedi'u datblygu ar gyfer gweithlu Addysg Bellach a Dysgu Seiliedig ar Waith i osod disgwyliadau uchel ar gyfer yr holl ymarferwyr ac i fod yn fwy penodol ynghylch rôl dysgu proffesiynol cydweithredol uchel ei ansawdd. Dylai darparwyr ystyried hyn wrth ddatblygu eu cynlluniau datblygu ansawdd gan y bydd y safonau'n adnodd pwysig i gefnogi gwelliannau mewn addysgu, dysgu ac asesu.

## Nodweddion hunanasesiad effeithiol

4 Cyfrwng i werthuso, monitro a rheoli ansawdd yw hunanasesu - nid gofyniad gan arolygwyr allanol neu gyrff ariannu. Dylai fod yn broses barhaus, nid yn ‘gipolwg’ blynyddol.

5 Mae’n gyfrifoldeb ar bob darparwr i reoli a gwella ansawdd yr hyn y maent yn ei ddarparu, gan roi rhan i’r dysgwyr yn y broses.

6 Mae hunanasesiad effeithiol:

- yn canolbwyntio’n bennaf ar ddysgwyr, eu profiadau a’u cyraeddiadau fel sail i’r dyfarniadau a wneir;
- yn canfod diffygion a meysydd datblygu’n onest ynghyd â chryfderau;
- yn dangos dulliau gweithredu cyson ar draws pob maes gan ddangos, lle bo gwahanol dimau wedi cynnal hunanasesiad, bod eu canfyddiadau wedi’u dwyn at ei gilydd a’u dilysu gan uwch reolwyr;
- yn cynnwys dysgwyr, staff, rheolwyr a llywodraethwyr ar draws y sefydliad;
- yn ystyried barn dysgwyr, cyflogwyr a rhanddeiliaid eraill gan gynnwys sefydliadau sy’n bartneriaid ac isgontractwyr pan fydd hynny’n briodol;
- yn olrhain cynnydd o flwyddyn i flwyddyn wrth atgyfnerthu cryfderau a gwella gwendidau;
- yn casglu ynghyd a gwerthuso tystiolaeth o amryw o ffynonellau dibynadwy a gweithgareddau; ac
- wedi’i integreiddio’n gyfan gwbl â chylch cynllunio’r darparwr fel bod yr amcanion, y targedau a’r camau gweithredu bob blwyddyn yn adlewyrchu deilliannau’r hunanasesiad.

## Cwmpas a chynnwys yr adroddiad hunanasesu

7 Mae'r broses hunanasesu a'i defnydd i gefnogi gwelliant yn bwysicach na'r adroddiad ei hun. Ni does fformat penodol ar gyfer yr adroddiad, ond rhaid iddo wneud y canlynol:

- ymdrin â'r flwyddyn flaenorol (cyllido, academaidd neu ariannol);
- cynnwys cyflwyniad byr, gan roi'r wybodaeth gefndirol berthnasol, crynodeb o'r broses ar gyfer cynnal hunanasesiad a chrynodeb sy'n cynnwys y cryfderau a'r gwendidau a ganfuwyd; cynnwys y meysydd ffocws penodol a nodir ym mharagraffau 15-24 isod. Mae'n ofynnol i ddarparwyr dysgu seiliedig ar waith ystyried paragraffau 25-29 hefyd;
- cyfeirio at gwmpas priodol o ffynonellau tystiolaeth i gefnogi pob dyfarniad;
- gwerthuso data ystadegol ynghylch cyfranogiad a deilliannau dysgwyr (gan gynnwys amrywiaeth a chydraddoldeb);
- gweithredu drwy werthuso yn hytrach na bod yn ddisgrifiadol, gan nodi'n glir y cryfderau a'r gwendidau;
- bod yn agored ac yn onest wrth gydnabod pa welliannau sydd eu hangen;
- nodi camau sydd wedi'u cymryd neu sy'n cael eu cymryd, i ddelio â gwendidau;
- cyfeirio at arolygiadau, asesiadau ac adolygiadau allanol a dangos y cynnydd a wnaed wrth ddelio â'u hargymhellion.

### Dysgu cyfrwng Cymraeg

8 Mae strategaeth newydd ar gyfer y Gymraeg, sef Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr Cymraeg, yn amlinellu dull gweithredu hirdymor Llywodraeth Cymru ar gyfer cyflawni'r targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae'r strategaeth cynnwys nod penodol:

- Datblygu darpariaeth addysg ôl-orfodol sy'n cynyddu cyfraddau dilyniant ac yn cefnogi pawb, ni waeth pa mor rhugl eu Cymraeg, i ddatblygu sgiliau yn yr iaith i'w ddefnyddio'n gymdeithasol ac yn y gweithle.

9 Mae gofyn i bob darparwr ddangos sut y mae'n cyfrannu at y targedau hyn ac yn mynd i'r afael ag ansawdd y ddarpariaeth a phrif amcanion y sector ôl-16.

10 Wrth baratoi eu hadroddiad hunanasesu, dylai darparwyr gyfeirio at y camau a'r targedau yn eu cynlluniau gweithredu'r cwricwlwm Cymraeg er mwyn dangos eu cynnydd yn erbyn targedau cenedlaethol 2020.

## Cynlluniau datblygu ansawdd

11 Dylai darparwyr weithredu i ddelio â'r holl wendidau a meysydd i'w gwella a nodwyd yn yr hunanasesiad. Gellir cyflwyno'r cynllun datblygu ansawdd fel dogfen gryno gyda chyfeiriadau at gynlluniau gweithredu mwy manwl ond rhaid iddo ddangos yn glir sut y byddant yn delio â'r materion pwysicaf a nodwyd yn yr hunanasesiad. O safbwynt blaenoriaethu, os bydd goblygiadau adnoddau'n rhwystro'r gwaith o ddelio â'r holl ddiffygion, dylai'r cynllun datblygu ansawdd ddangos sut mae'r adnoddau wedi'u blaenoriaethau i ddelio â'r materion pwysicaf.

12 Dylai'r cynllun datblygu ansawdd gynnwys cyflwyniad byr yn amlinellu:

- crynodeb o'r broses ar gyfer datblygu'r cynllun, gan gynnwys cyfranogiad staff, rheolwyr a llywodraethwyr;
- nodi'n glir y blaenoriaethau y mae'n rhaid mynd i'r afael â hwy yn ystod y flwyddyn nesaf;
- crynodeb o sut y bydd rheolwyr, llywodraethwyr a rhanddeiliaid yn cael eu hysbysu am y cynnydd a'r canlyniadau a sut y byddan nhw'n cael eu monitro.

### Nodweddion cynlluniau datblygu ansawdd effeithiol

13 Dylai cynlluniau datblygu ansawdd:

- gael eu cyfeirio at y cryfderau a'r gwendidau yn yr Adroddiad Hunanasesu;
- nodi blaenoriaethau ar gyfer gweithredu;
- nodi camau gweithredu penodol i'w cyflawni i ddelio â gwendidau ac i adeiladu ar gryfderau;
- cynnwys targedau mesuradwy a dangosyddion perfformiad lle mae hynny'n bosibl;
- nodi amserlenni ar gyfer cwblhau a nodi dyddiadau adolygu interim ar gyfer y camau gweithredu hirdymor;
- nodi'r adnoddau sy'n ofynnol er mwyn cymryd y camau gweithredu;
- nodi lle mae angen arbenigedd allanol i gymryd y camau gweithredu;
- nodi'r staff sy'n gyfrifol am bob un o'r camau gweithredu;
- nodi pa reolwr (neu reolwyr) fydd yn cymryd cyfrifoldeb dros adolygu'r cynnydd yn erbyn y cynllun datblygu ansawdd ac yn mesur y gwelliannau a ddaw yn sgil hynny; a
- cynnwys cyfeiriad at adroddiadau arolwg Estyn, cynlluniau strategol/ busnes/ cyflenwi gwasanaethau a chynlluniau gweithredu mwy manwl ar gyfer adrannau penodol neu feysydd gweithredu.

14 Dylai hunanasesiad effeithiol fod yn rhan annatod o systemau ansawdd yr holl ddarparwyr gan gynnwys monitro cynnydd tuag at y cynllun datblygu ansawdd. Er nad oes rheidrwydd ar ddarparwyr i gyflwyno diweddariadau chwarterol ar y

Cynllun Datblygu Ansawdd i Lywodraeth Cymru, rydym yn disgwyl i chi barhau i fonitro yn rheolaidd eich cynnydd o ran rhoi'r cynllun Datblygu Ansawdd ar waith. Mae'n bosibl y byddwn yn gofyn am gael gweld y diweddariadau hyn er mwyn sicrhau bod gennym yr wybodaeth berthnasol, ddiweddaraf ar gynnydd y darparwyr. Rydym hefyd yn disgwyl i ddarparwyr sicrhau bod y camau gweithredu sy'n cael eu cymryd mewn ymateb i archwiliadau Estyn yn cael eu cynnwys yng nghylchoedd y Cynlluniau Datblygu Ansawdd.